COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) A GYNHALIWYD YN COMMITTEE ROOMS 2/3, CIVIC OFFICES ANGEL STREET BRIDGEND CF31 4WB DYDD MAWRTH, 12 CHWEFROR 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| RM James | B Jones | MJ Kearn | JE Lewis |
| G Thomas | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

A Hussain

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Will Lane | Rheolwr Gweithredol – Cydwasanaethau Rheoleiddio |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |

120. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cynghorydd A Hussain

121. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Brian Jones ddiddordeb anfanteisiol yn eitem 9 - Gwrandawiad Disgyblu'r Gyrrwr Tacsi Presennol gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd a gadawodd yr ystafell pan oedd y cais yn cael ei ystyried.

122. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Rhagfyr 2018 fel rhai cywir.

123. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli adroddiad a oedd yn gofyn i'r Is Bwyllgor ystyried cais i ganiatáu trwydded am Gerbyd Hurio Preifat.

Gwnaethpwyd y cais gan Peyton Travel i drwyddedu Renault Trafic, rhif cofrestru M24 PEY fel cerbyd hurio preifat i gludo 8 unigolyn.

Roedd y cerbyd yn un ail law a chafodd ei gofrestru gyda'r DVLA am y tro cyntaf ar 24 Mehefin 2015. Er gwybodaeth i'r Aelodau, darparwyd cefndir gwasanaeth dyddiedig 15 Medi 2016 gyda chofnod milltiredd o 30,997 ac ar 19 Awst 2018 gyda chofnod milltiredd o 59,445.

Gohiriwyd y cyfarfod am gyfnod byr i ganiatáu i Aelodau archwilio'r cerbyd. Wedi i'r cyfarfod ailddechrau, nododd yr Aelodau gofnod milltiredd o 69,043 a bod y cerbyd yn ymddangos mewn cyflwr rhagorol.

PENDERFYNWYD: Ystyriodd yr Is-Bwyllgor y cais i drwyddedu'r cerbyd â'r rhif cofrestru M24 PEY fel Cerbyd Hurio Preifat.

Nododd aelodau bod y cais yn mynd y tu hwnt i'r Polisi Trwyddedu ym mharagraff 2.1 oherwydd oedran y cerbyd.

Nododd aelodau bod y Polisi ym mharagraff 2.2 yn caniatáu i'r rheol gael ei llacio mewn amgylchiadau eithriadol, ac mae enghreifftiau o'r rhain wedi'u manylu ym mharagraff 2.4 y Polisi.

Wedi archwilio'r cerbyd, barn yr Is-Bwyllgor oedd bod y cerbyd yn eithriadol o ran ansawdd y tu mewn yn ogystal â'r tu allan, a'i rinweddau diogelwch. Felly, rhoddodd yr Is-Bwyllgor ganiatâd i drwyddedu'r cerbyd.

124. MATERION BRYS

Dim

125. GWAHARDD Y CYHOEDD

Ni fydd yr adroddiadau/cofnodion yn ymwneud â'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn ôl y diffiniad ym Mharagraff 12 Rhan 4 ac/neu Baragraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

Os, yn dilyn y cais o brawf lles y cyhoedd fod y Pwyllgor yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitemau hyn yn breifat, bydd aelodau'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth honno.

126. CYMERADWYAETH COFNODION WEDI'U EITHRIO

127. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

128. GWRANDAWIAD DISGYBLU AR GYFER GYRWYR TACSI PRESENNOL

Daeth y cyfarfod i ben am 11:29